**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip

14 Mehefin 2023

Annwyl Jane

Adroddiad y Pwyllgor: 60% - Rhoi llais iddyn nhw - Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y system cyfiawnder ieuenctid

Diolch am eich ymateb i'n hadroddiad ynghylch anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y system cyfiawnder ieuenctid, a drafodwyd yn ein cyfarfod ar 12 Mehefin 2023.

Roeddem yn falch o weld eich bod yn rhannu ein huchelgais i wella canlyniadau i bobl ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y system cyfiawnder troseddol. Fodd bynnag, roeddem yn siomedig ynghylch y diffyg camau manwl y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd, ac felly byddem yn croesawu rhagor o eglurder mewn perthynas â'r pwyntiau a ganlyn:

- Roedd argymhelliad 1 yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnull uwchgynhadledd o randdeiliaid allweddol sy'n gweithio yn y sector gyda'r nod o ffurfio ffrwd waith newydd gan edrych yn benodol ar effaith anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ar blant a phobl ifanc a'r cysylltiad â'r rhan fwyaf o bobl ifanc sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid. Fodd bynnag, nid yw'r ymateb yn ymrwymo i gynnull uwchgynhadledd ac yn hytrach mae'n nodi'r gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo. A allech egluro a fydd uwchgynhadledd yn cael ei chynnal? Os na fydd, dylid newid yr ymateb i "Gwrthod" er mwyn bod yn fwy tryloyw.

- Roedd argymhelliad 2 yn cyfeirio'n benodol at "[b]obl ifanc wrth iddynt symud ymlaen o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd", ond mae eich ymateb yn cyfeirio at y cynllun "Siarad

gyda Fi", sydd wedi'i dargedu at blant 0-5 oed. A fyddech cystal â nodi sut y bydd anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu plant a phobl ifanc 10+ oed yn cael eu diwallu.

- Mae'r ymateb yn cydnabod y manteision sy'n deillio o argymhelliad 3, ond mae'n nodi nad oes digon o Therapyddion Lleferydd ac Iaith yn cael eu cyflogi gan y GIG ar hyn o bryd i ddiwallu'r llwyth gwaith ychwanegol. A allech gadarnhau a allai Adrannau Gweinidogol eraill, fel Cyfiawnder Cymdeithasol, gomisiynu lleoedd hyfforddi ar gyfer Therapyddion Lleferydd ac Iaith? Pa drafodaethau, os o gwbl, a gafwyd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ynghylch yr angen am gyllid ar gyfer rhagor o therapyddion lleferydd ac iaith, o gofio nad yw cyfiawnder ieuenctid yn wasanaeth datganoledig ar hyn o bryd?

- A allech egluro a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi *adnoddau ychwanegol i ehangu'r ddarpariaeth o wasanaethau eiriolaeth (pwyslais wedi'i ychwanegu)* ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y system cyfiawnder ieuenctid fel y nodir yn argymhelliad 4? Mae'r ymateb yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, ond yn cyfeirio at waith presennol yn unig.

- Nid yw'n glir o'r ymateb i argymhelliad 5 a oes unrhyw gamau penodol yn cael eu cymryd neu a oes unrhyw wersi wedi'u dysgu o ganlyniad i'r Adroddiad Cyd-Arolygu i wella'r cymorth i blant a phobl ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. A fyddech cystal â darparu gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â'r pwynt hwn?

- Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gref i gefnogi argymhelliad 6, ac er bod y manteision yn cael eu cydnabod, mae'r ymateb yn nodi y byddai hyn "yn gofyn am leoedd hyfforddi ychwanegol ac am greu swyddi". Ymddengys bod hyn yn gwrth-ddweud y wybodaeth a ddarparwyd mewn mannau eraill, er enghraifft yn yr ymateb i argymhelliad 7, sy'n dweud, o ran nifer y lleoedd hyffordd i Therapyddion Lleferydd ac Iaith yng Nghymru, mai "49 yw'r nifer o hyd ar gyfer 2023/24, i gyd-fynd â'r galw am y gwasanaeth".

- Mae'r ymateb i argymhelliad 7 yn cyfeirio at gynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer y gweithlu. Fodd bynnag, dywedodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith y gwrthodwyd cynllun gweithlu ar gyfer proffesiynau perthynol i iechyd. A fyddech cystal â chadarnhau a yw hyn yn wir.

Yn olaf, hoffem roi rhagor o bwyslais ar argymhellion 3 a 6, yr ydym yn eu hystyried yn gasgliadau allweddol i'n hymchwiliad. Mae'r argymhellion hyn yn seiliedig ar dystiolaeth bod y dull gweithredu'n gweithio ac yn cadw pobl allan o'r system droseddu, ac maent yn mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau y mae'r ffigurau yn ein hadroddiad yn dangos tystiolaeth ohonynt.

Mae dadl wedi'i threfnu ar gyfer 28 Mehefin, ac er bod yr amserlenni'n dynn, byddem yn gwerthfawrogi'n fawr pe gallech ymateb cyn y ddadl er mwyn llywio cyfraniadau'r Aelodau os yw'n bosibl.

Yn gywir



Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Senedd Cymru
Welsh Parliament